# Cofnodion Fforwm Rheoli Tir Cymru

**Teitl y cyfarfod:** Fforwm Rheoli Tir Cymru

**Lleoliad:** Cyfarfod Microsoft Teams

**Dyddiad y cyfarfod:** 6 Medi 2021

**Yn bresennol:**

Zoe Henderson, CNC (Cadeirydd)

Ruth Jenkins, CNC

Geraint Llŷr Davies, CNC

Marc Williams, CNC

Sarah Hetherington, CNC

Dennis Matheson, Cymdeithas y Ffermwyr Tenant (TFA)

Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru

Hedd Pugh, NFU Cymru

Anthony Geddes, Confor

Martyn Evans, CNC

John Browne, CNC

Bernard Griffiths, Undeb Amaethwyr Cymru (FUW)

Fraser McAuley, Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad (CLA)

Tim Kirk, Confor

Spencer Conlon, Llywodraeth Cymru

**Unigolion ychwanegol a oedd yn bresennol:**

Paul Dann, CNC (Eitem 3 yn unig)

**Ysgrifenyddiaeth(au):**

Bronwen Martin, CNC

**Ymddiheuriadau:**

Bob Vaughan, CNC

Vicky Jones, Llywodraeth Cymru

Ceri Davies, CNC

Steve Ormerod, CNC

## Eitem 1 Cyflwyniadau, Ymddiheuriadau a Datganiadau o Fuddiant

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod Microsoft Teams gan nodi'r ymddiheuriadau.

2. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant mewn cysylltiad â'r eitemau ar yr Agenda.

3. Atgoffwyd y grŵp bod y cyfarfod yn cael ei recordio at ddiben y cofnodion ac y bydd y ffeil ddigidol yn cael ei dileu ar ôl i gofnodion y cyfarfod gael eu hysgrifennu.

## Eitem 2 Cofnodion y cyfarfod diwethaf ac unrhyw faterion sy'n codi

4. Adolygodd y Grŵp gofnodion cyfarfod mis Mehefin 2021 a chadarnhau eu bod yn gofnod cywir. Dywedodd Zoe fod ganddi fân newidiadau a'u bod wedi cael eu hanfon at Bronwen. Ar ôl adolygu'r cofnodion a chytuno'n ffurfiol arnynt, byddant yn cael eu cyfieithu a'u cyhoeddi ar wefan CNC.

5. Rhannodd Bronwen Martin, CNC ei sgrin ac adolygodd y grŵp y Log Camau Gweithredu.

6. Gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau a oedd ganddynt unrhyw beth yr hoffent ei grybwyll ynglŷn â'r wybodaeth yn y Papur Diweddaru. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau.

## Eitem 3 Gyrru Anghyfreithlon Oddi ar y Ffordd

7. Estynnodd y Cadeirydd groeso i Paul Dann, CNC i'r cyfarfod i arwain trafodaeth ynglŷn â'r cynnydd mewn gweithgareddau gyrru anghyfreithlon oddi ar y ffordd ledled Cymru. Anogodd Zoe yr aelodau i gymryd rhan yn y sgwrs ynglŷn â'r pwnc hwn.

8. Arweinydd Tîm Rheoli Tir ar ochr weithredol CNC yw Paul. Mae'n rheoli Ystad Goetir Llywodraeth Cymru a'r Ystad Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol ar draws rhannau o ganolbarth Cymru. Mae mynediad anghyfreithlon â moduron yn broblem gynyddol ar diroedd a reolir gan CNC, ac ar diroedd cyfagos a thiroedd partneriaid hefyd. Mae'r

galw'n fwy o lawer na'r hyn y gall llwybrau cyfreithlon ddarparu ar ei gyfer. Mae mynediad anghyfreithlon bwriadol â moduron yn achosi problemau i wahanol grwpiau defnyddwyr – mae'n effeithio ar ddefnyddwyr hamdden eraill ac mae angen llawer iawn o adnoddau i'w reoli. Yn ôl Paul, mae'r cyfnod clo wedi newid safbwynt pobl ynglŷn â hyn a rhoddwyd llawer o sylw i'r mater ar y cyfryngau. Mae CNC wedi cael cymorth gan yr Heddlu er mwyn ceisio mynd i'r afael â phroblemau'n ymwneud â mynediad anghyfreithlon â moduron.

Dywedodd Paul fod yna broblemau o ran hawliau tramwy cyfreithlon sydd eisoes yn bodoli. Yn ôl y gyfraith, mae gan yrwyr oddi ar y ffordd hawl i fynd ar Ffyrdd Sirol Diddosbarth, ond weithiau mae'n anodd eu canfod ar fapiau. Hefyd, gall llwybrau mynediad cyhoeddus eraill godi cwestiynau ynglŷn â mynediad cyfreithlon i yrwyr oddi ar y ffordd.

Yn ôl Paul, gwelodd CNC gynnydd mewn cwynion yn ymwneud â gyrru oddi ar y ffordd yn dilyn y cyfnod clo yn ystod y gwanwyn diwethaf a'r llacio dilynol ar y cyfyngiadau. Cyflwynwyd patrolau mewn rhai rhannau o Gymru, gan dargedu ardaloedd a oedd yn destun pryder arbennig. Mae CNC wedi uno â'r Heddlu i gynnal ymgyrchoedd ar y cyd. Mae CNC wedi cyflwyno mwy o seilwaith ar rai safleoedd, yn cynnwys rhwystrau a ffensys er mwyn cyfyngu ar fynediad oddi ar y ffordd. Fodd bynnag, dywedodd Paul ei bod hi bron yn amhosibl cadw beiciau modur oddi ar safleoedd gan fod pobl yn torri ffensys a chlwydi. Hefyd, mae cydweithwyr wedi gosod camerâu er mwyn monitro'r broblem a gweld beth yw'r niferoedd. Mae CNC wedi cysylltu â chlybiau chwaraeon moduro a threfnwyr digwyddiadau hefyd i geisio cyfathrebu â'u haelodau. Ond mae llawer o'r bobl y daethpwyd ar eu traws yn dod o bell – o leoedd fel Lerpwl, Manceinion a Leeds – ac o'r herwydd mae'n anodd cyfathrebu â'r grŵp defnyddwyr. Hefyd, mae CNC wedi gweithio gyda grŵp llywio moduro oddi ar y ffordd Cymru i argymell cymorth parhaus ac mae'r grŵp wedi mynegi ei gefnogaeth i orfodaeth lem.

9. Cydnabu Dennis Matheson, TFA fod hon yn broblem a welir ledled Cymru a dywedodd fod gyrru oddi ar y ffordd wedi cynyddu'n fawr yn ddiweddar. Esboniodd Dennis bod rhai o'r llwybrau a ddefnyddir gan y bobl hyn yn ei ardal ef yn hawliau tramwy cyfreithiol, ac mai dyma'r anhawster. Roedd Dennis yn falch o glywed bod CNC yn cynnal trafodaethau gyda chlybiau, oherwydd mae gan rai o'r clybiau hyn rywfaint o ddylanwad ar weithgareddau eu haelodau (e.e. codau ymarfer). Dywedodd Dennis y gwyddai fod pobl yn teithio o bell i ddefnyddio'u cerbydau oddi ar y ffordd yng Nghymru. Yn ôl Dennis, mae rhai pobl yn hysbysebu eu hunain fel tywyswyr neu arweinwyr llwybrau, ond yn aml maent yn gadael i'w grwpiau yrru o amgylch cefn gwlad. Awgrymodd Dennis mai addysgu'r defnyddwyr hyn fydd yr opsiwn gorau er mwyn gwella'r broblem.

10. Gofynnodd Paul i Dennis a yw wedi ceisio cyfathrebu gyda'r defnyddwyr hyn a gofyn iddynt arafu neu barchu'r llwybrau. Dywedodd Dennis ei fod wedi ceisio siarad â nifer o bobl ond bod y profiad wedi bod yn eithriadol o rwystredig gan eu bod yn ymateb mewn modd sarhaus yn aml.

11. Dywedodd Tim Kirk, Confor nad cerbydau modur yn unig yw'r broblem a bod nifer o goedwigoedd yn dioddef yn sgil beiciau mynydd – yn aml, mae'r rhain yn fwy peryglus gan fod cerddwyr o gwmpas. Mewn ambell achos, ni ŵyr neb fod y beicwyr hyn ar yr eiddo, ac os byddant yn cael eu hanafu gall gymryd llawer o amser i rywun ddod o hyd iddynt ac mae mynediad i'r gwasanaethau brys yn anodd. Nid yw perchnogaeth breifat

yn golygu fawr ddim i rai pobl chwaith. Dywedodd Tim fod un o'i gleientiaid wedi prynu arwyddion, ond o fewn dim o dro roedd rhywun wedi'u fandaleiddio ac mae beicwyr wedi torri coed a chreu llwybrau anghyfreithlon hefyd.

12. Yn ôl Dennis, mae llawer o bobl yn bryderus iawn ynglŷn â'r bwriad i ganiatáu rasio beiciau mynydd ar lwybrau ceffylau.

13. Gofynnodd Ruth Jenkins, CNC a fyddai'n werth cael mwy o eglurder yn y cyfarfod ynglŷn â materion mynediad a'r hyn a gynigir o ran newidiadau deddfwriaethol. Cytunodd Zoe y byddai mwy o eglurder o fudd i'r grŵp. Dywedodd Ruth fod gwaith ar y gweill i ddeall pa gyfleoedd sydd ar gael i ddefnyddio llwybrau mynediad presennol mewn amryfal ffyrdd. Awgrymodd Ruth y dylai rhywun o Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru fynychu un o gyfarfodydd y Fforwm Rheoli Tir i gyflwyno diweddariad. Yn ôl Bronwen, gwahoddwyd cynrychiolydd o Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru i'r cyfarfod.

14. Yn ôl Anthony Geddes, Confor mae yna lawer iawn o weithgareddau mynediad cyfreithlon ac anghyfreithlon yn ei ardal ef. Dywedodd Anthony ei fod yn feiciwr mynydd brwd, ond ei fod yn defnyddio llwybrau sydd wedi'u marcio'n briodol. Disgrifiodd rai o'r llwybrau a ddefnyddir gan gerbydau 4x4 oddi ar y ffordd yn ei ardal a'r modd mae rhai ardaloedd wedi cael eu newid neu eu haddasu er budd y defnyddwyr hyn. Mae colli parcmyn yn amlwg a dylid cael pobl yn y goedwig i wylio'r defnyddwyr, a rhyngweithio ac ymgysylltu â nhw. Awgrymodd Anthony fod yr adnodd hwn yn gryn her o ran ymgysylltu'n rhagweithiol â defnyddwyr.

15. Dywedodd Hedd Pugh, NFU Cymru fod ei fforwm mynediad lleol ef wedi cynnal trafodaeth ynglŷn â cherbydau 4x4 a beiciau modur. Dywedodd fod y fforwm wedi anfon llythyr at y Gweinidog, Lee Waters i holi a ellir gwneud unrhyw beth ynglŷn â'r mater, gan awgrymu y gellid trefnu o bosibl i feiciau modur ddefnyddio eiddo Llywodraeth Cymru yn hytrach na thir preifat. Mae llawer o ffermwyr yn bryderus ynglŷn â'r llanastr a gaiff ei greu gan y bobl hyn, gan nad ydynt yn cadw at y llwybrau. Hefyd, mae ffermwyr yn bryderus ynglŷn â thrawsgydymffurfio ac un a allai'r gweithgareddau hyn effeithio ar eu taliadau sengl.

16. Ategwyd y sylwadau hyn gan Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru. Mae hon yn broblem gynyddol i aelodau NFU Cymru. Soniodd Rachel am y problemau a welwyd, gyda beiciau sgrialu yn cyrraedd unrhyw adeg o'r dydd neu'r nos. Maent yn achosi niwed ecolegol trwy beidio â chadw at lwybrau a ffyrdd. Esboniodd Rachel fod y broblem i'w gweld ar gyrion trefi hefyd a bod y bobl o dan sylw yn torri ffensys er mwyn cael mynediad i leoedd. Disgrifiodd Rachel system fapio a ddefnyddir gan NFU Cymru ar gyfer tipio anghyfreithlon, a gofynnodd a oes gan CNC system debyg ar gyfer mapio gweithgareddau gyrru anghyfreithlon oddi ar y ffordd. Byddai modd casglu data a thystiolaeth er mwyn mapio'r digwyddiadau ledled Cymru, ac fe allai hynny ein helpu i ddeall a monitro maint y broblem. Mae hyn yn bwysig, gan fod rhai o'r ardaloedd dan sylw'n amgylcheddol sensitif, neu wedi eu dynodi hyn yn oed. Awgrymodd Rachel y gallai NFU Cymru helpu i gasglu data arbennig, pe bai hynny o fudd.

17. Dywedodd Martyn Evans, CNC fod y sgwrs yn dangos ein bod ar ei hôl hi braidd, o bosibl. Mae yna gynnydd o'r newydd yn y defnydd o gefn gwlad, ac o lwybrau hefyd o bosibl, ac o'r herwydd mae angen gwaith dadansoddi i wella'r problemau. Dywedodd Martyn fod CNC wedi cynnal sgyrsiau gyda Phrif Gwnstabl Heddlu De Cymru a'r

Comisiynydd ynglŷn ag achub y blaen ar y broblem hon. Awgrymodd Martyn y gellid mapio’r broblem ac adeiladu sylfaen dystiolaeth trwy Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru. Mae yna lawer o bryderon, yn cynnwys atebolrwydd, diogelwch personol, difrod i dir preifat a’r effaith ar fywyd gwyllt.

18. Soniodd Bernard Griffiths, FUW am sefyllfa y daeth un o aelodau FUW ar ei thraws, lle’r oedd criw o bobl wedi cyrraedd gyda threlar llawn cerbydau oddi ar y ffordd. Penderfynodd yr aelod fynd i siarad â nhw er mwyn ceisio gwneud rhywbeth ynglŷn â’r sefyllfa. Yr unig beth a wnaethant oedd gyrru o’i amgylch mewn cylch a doedd dim byd y gallai’r unigolyn dan sylw ei wneud. Wrth symud ymlaen, awgrymodd Bernard mai cyflwyno deddfwriaeth newydd yw’r unig ffordd o wella’r sefyllfa.

19. Dywedodd Geraint Llŷr Davies, CNC mai ef yw Cadeirydd newydd Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru. Yn ôl Geraint, mae’r pwnc hwn yn destun pryder iddo eisoes. Mae mwy o bobl eisiau mwy o fynediad i gefn gwlad, ond rhaid iddynt ddeall sut gall eu gweithgareddau effeithio ar gefn gwlad. Mae pobl wedi cael eu hanafu yn sgil gweithgareddau oddi ar y ffordd yn barod – yn cynnwys y cyhoedd a’r bobl sy’n cyflawni’r gweithgareddau. Estynnodd Geraint wahoddiad i Paul Dann a Martyn Evans fynychu cyfarfod nesaf Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru fel y gellir trafod y pwnc ymhellach.

20. Gofynnodd Zoe beth sydd a wnelo Cynghorau Sir lleol â’r mater hwn. Awgrymodd y dylid trafod y pwnc eto yn y dyfodol a gofynnodd i Ruth, Martyn neu Paul fynd ar drywydd y drafodaeth hon ac archwilio syniad Rachel ynglŷn â sut gallwn ddeall yn well beth sy’n digwydd, a ble.

21. Dywedodd Paul fod y drafodaeth hon yn bwysig dros ben. Atgoffodd yr aelodau fod gyrru anghyfreithlon oddi ar y ffordd yn drosedd ac y dylid rhoi gwybod i’r Heddlu am weithgareddau o’r fath trwy ffonio 101. Bydd rhoi gwybod i’r Heddlu am ddigwyddiadau o’r fath yn eu helpu i gasglu tystiolaeth a mapio’r broblem. Dywedodd Paul fod beiciau mynydd trydan yn fwyfwy fforddiadwy bellach a bod beiciau gwlad trydan ar y farchnad erbyn hyn, y bydd angen eu hystyried.

22. Gofynnodd Rachel a yw’r cyngor i hysbysu’r Heddlu i’w weld ar wefan CNC, oherwydd byddai modd cyfeirio eu haelodau at y canllawiau hyn. Dywedodd Paul y byddai’n edrych ar wefan CNC, ond gwyddai fod y cyngor ar wefannau’r Parciau Cenedlaethol a gwefannau Heddluoedd lleol. Dywedodd Paul fod CNC yn defnyddio cyfeiriad e-bost yr heddlu i adrodd am achosion o’r fath yn lleol fel arfer, yn hytrach na’r rhif ffôn.

23. Diolchodd Zoe i Paul am ymuno â’r cyfarfod ac awgrymodd fod angen cynnal trafodaeth bellach yng nghyfarfod nesaf Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru. Awgrymodd y gellid gwahodd yr Heddlu i ymuno â’r drafodaeth. Gofynnodd Zoe tybed a fyddai modd bwydo diweddariad yn ôl i’r grŵp hwn.

24. Soniodd Martyn am ddefnyddio pwerau coedwigaeth, lle gellir rhoi rhybuddion ffurfiol i bobl ac arwain o bosibl at atafaelu cerbydau. Dywedodd Paul y byddai’n rhaid i’r cydweithwyr fod yn swyddogion gorfodi. Yn ôl Paul, gellir defnyddio pwerau sydd i’w cael yn Neddf Coedwigaeth 1967 mewn perthynas â gorfodi o fewn yr is-ddeddfau, ond nid ydynt mor gryf â phwerau’r Heddlu o dan Adran 59 o Ddeddf Diwygio’r Heddlu 2002.

## Eitem 4 Diweddariadau CNC

25. Dywedodd y Cadeirydd fod Papur Diweddaru wedi'i ddosbarthu i'r aelodau cyn y cyfarfod a oedd yn cynnwys dolenni i wybodaeth bellach. Gofynnodd Zoe a oedd gan unrhyw un adborth neu sylwadau ynglŷn â'r eitemau yn y ddogfen.

26. Cyflwynodd Ruth Jenkins, CNC y diweddariadau ychwanegol a ganlyn:

    - Gair i atgoffa bod yr Ymgynghoriad ar ddull CNC o reoleiddio saethu a thrapio adar gwyllt yng Nghymru ar waith ac y bydd yn dod i ben ar 11 Tachwedd 2021.
    - Bydd CNC yn mynychu cyfarfod y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ddiwedd y mis. Bydd y sesiynau yn y cyfarfod yn ymwneud â bioamrywiaeth a llywodraethu amgylcheddol a bwyd a newid hinsawdd.
    - Hefyd, disgwylir i CNC fynychu sesiwn ym Mhwyllgor yr Economi a Materion Gwledig a gynhelir naill ai ddiwedd y mis neu ym mis Hydref.
    - Soniodd Ruth am yr Archwiliad Dwfn i Goedwigaeth a Choetiroedd, a gynhaliwyd gan Lee Waters. Dywedodd Ruth fod dau Archwiliad Dwfn arall wedi'u cyhoeddi ar Fioamrywiaeth ac Ynni Adnewyddadwy.

27. Gofynnodd Fraser McAuley, CLA pryd fydd yr Archwiliadau Dwfn yn cael eu cynnal. Dywedodd Ruth nad yw'r amserlen lawn wedi dod i law eto.

28. Soniodd Dennis Matheson, TFA am y cyfarfod a gynhaliwyd gyda Lee Waters y mis diwethaf ynglŷn â'r Archwiliad Dwfn. Dywedodd Dennis fod coed a thenantiaid yn broblem fawr a bod y TFA wedi cynnig cynnal trafodaeth er mwyn ceisio llunio atebion, ond nad oedd wedi gallu cysylltu eto. Holodd Zoe a oedd rhywun yn mynd ar drywydd hyn. Dywedodd Dennis fod y TFA wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru – cydnabuwyd y llythyr, ond nid yw pethau wedi symud yn eu blaen eto. Gofynnodd Zoe beth yw'r broses o ran mynd ar drywydd yr Archwiliadau Dwfn. Dywedodd Ruth eu bod yn edrych yn fanwl ar faes penodol a bod gwaith dilynol yn cael ei wneud ar ffurf cynllun gweithredu sy'n cynnwys camau y tynnwyd sylw atynt. Dywedodd John Browne fod y cysyniad sydd wrth wraidd Archwiliadau Dwfn wedi'i roi ar waith oddeutu 18 mis yn ôl gyda chyfres o ddeg o gyfundrefnau sy'n bwysig i ystyried Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Yn ôl John, mae saith cyfundrefn o blith y deg wedi cael eu cwblhau, gyda thair i ddod. Lluniwyd papur drafft ar gyfer Llywodraeth Cymru sy'n cynnwys ymyriadau awgrymedig sydd wedi deillio o'r Archwiliadau Dwfn hyn.

29. Yn ôl Anthony Geddes, Confor un o'r argymhellion a ddeilliodd o'r Archwiliad Dwfn i Goedwigaeth a Choetiroedd yw y dylid sefydlu fforwm ar gyfer ystyried partneriaethau tir, cwestiynu buddsoddiad allanol a choedwigo a ffermio'n gweithio gyda'n gilydd. Dosbarthwyd y Cylch Gorchwyl. Arweinydd y sesiwn yw John Travis; Sarah Jennings, CNC yw'r cadeirydd. Awgrymodd Anthony fod angen ymgysylltu mwy â rhanddeiliaid ar gyfer y gwaith parhaus hwn.

30. Trafododd Dennis sgwrs a gafodd ynglŷn â phlannu coed a thrwyddedau cwympo coed. Dywedodd John fod y mwyafrif llethol o geisiadau'n cael eu cwblhau o fewn 3 mis a bod mwy na 5000 o geisiadau am drwyddedau cwympo coed wedi dod i law y

llynedd. Croesawodd John unrhyw adborth neu drafodaethau gyda chydweithwyr yn y sector.

***PG Medi 01: John Browne a Dennis Matheson, TFA i fynd ar drywydd y drafodaeth ynglŷn â phlannu coed a thrwyddedau cwympo coed.***

31. Dywedodd Tim Kirk, Confor fod yna ardaloedd ledled Cymru lle mae rhedyn yn ffynnu, ond na ellir gwneud fawr ddim â nhw o ran ffermio, coedwigaeth na chadwraeth natur. Awgrymodd Tim fod angen mynd i'r afael â'r mater hwn, oherwydd byddai llawer o'r llethrau hyn yn lleoedd rhagorol i dyfu pren a chreu ardaloedd cadwraeth gwych gyda choetiroedd newydd. Roedd yna gronfa her rhedyn ar un adeg a gellid edrych ar hyn o'r newydd. Yn ôl Ruth, rhan o'r broses sydd ynghlwm wrth sicrhau bod y coed iawn yn y lle iawn yw canfod ble yw'r 'lle iawn'. Dywedodd Martyn fod yna ffordd bosibl ymlaen ac awgrymodd y dylid ymchwilio ymhellach i hyn. O ran y rhwystrau, dywedodd Ruth fod pobl wedi tynnu sylw at 'ble'. Gofynnodd Anthony am ddiweddariad ynglŷn ag achosion o gwympo coed yn anghyfreithlon, fel y gellir deall graddfa'r broblem.

***PG Medi 02: Ruth a Martyn i roi diweddariad ynglŷn ag achosion o gwympo coed yn anghyfreithlon, fel y gellir deall graddfa'r broblem, gweld sut mae CNC wedi ymateb a gweld lefel yr adnoddau ar dimau gorfodi a thimau gweithredol.***

32. Dywedodd Martyn fod CNC wedi gweld cynnydd mewn cwympo coed yn anghyfreithlon a bod y sefydliad yn cymryd camau gorfodi priodol mewn perthynas ag ychydig achosion arwyddocaol. Anogodd Martyn yr aelodau i roi gwybod am weithgareddau cwympo anghyfreithlon er mwyn sicrhau y gellir cymryd camau priodol. Dywedodd y gall fod yna ddiffyg dealltwriaeth ymhlith y cyhoedd ynglŷn â'r hyn y gellir ei wneud o fewn cwmpas trwydded.

33. Dywedodd John fod ymgynghoriad y Papur Gwyn Amaeth wedi ystyried hyn er mwyn cadarnhau'r sefyllfa o ran Coed Ynn. Y safbwynt presennol yw dibynnu ar ganllawiau clir iawn a fydd yn rhoi gwybod i dirfeddianwyr beth allant ac na allant ei wneud.

34. Gofynnodd Sarah Hetherington, CNC beth sy'n sbarduno'r cynnydd mewn gweithgareddau anghyfreithlon. Awgrymodd Martyn fod llawer o achosion yn gysylltiedig â defnyddio pren fel coed tân a gwaith clirio at ddibenion amaethyddol. Cytunodd John, a dywedodd fod pris pren wedi dyblu mewn cyfnod byr iawn.

## Eitem 5 Diweddariadau gan FUW / NFU Cymru / CFfI Cymru / Confor / CLA / TFA / Llywodraeth Cymru

**35. FUW:** Dywedodd Bernard Griffiths, FUW fod ei gydweithwyr wedi bod yn brysur yn paratoi cyflwyniad ar gyfer ymgynghoriad y Senedd ynglŷn â'r Rheoliadau Llygredd Amaethyddol. Mae FUW wedi bod yn edrych yn ofalus ar gytundebau masnach y DU gydag Awstralia a Seland Newydd a'r cam posibl tuag at ddod yn aelod o Bartneriaeth Gynhwysfawr a Blaengar y Môr Tawel.

36. **NFU Cymru:** Dywedodd Rachel Lewis-Davies fod yr ymchwiliad i'r rheoliadau dŵr yn bwysig iawn a bod NFU Cymru yn gweithio ar eu cyflwyniad. Bydd NFU Cymru yn rhyddhau eu papur polisi ynglŷn â gorchudd coed yng Nghymru yn ystod yr wythnosau nesaf, sy'n gwneud nifer o argymhellion pwysig. Mewn sawl ardal yng Nghymru, prynwyd ffermydd er mwyn eu coedwigo'n llwyr – rhywbeth sy'n destun pryder

cynyddol. Mae aelodau NFU Cymru yn awyddus i fod yn rhan o'r ateb i newid hinsawdd ac yn barod i gynyddu'r gorchudd coed ar eu ffermydd os cânt gymorth priodol. O ran y targedau i blannu coed ar ffermydd, rhaid eu hintegreiddio yn hytrach na'u disodli. Bydd Rachel yn rhannu'r papur gyda'r grŵp ar ôl iddo gael ei gyhoeddi.

Dywedodd Tim Kirk, Confor y rhoddwyd sylw mawr i bobl o'r tu allan i Gymru yn prynu ffermydd mawr. Awgrymodd Tim ei fod yn bryder ffug gan ei fod yn creu swyddi. Os nad yw ffermydd yn cyd-fynd â tharged Llywodraeth Cymru i blannu 40,000ha o goed, does dim gobaith o gyrraedd y targed.

Dywedodd Rachel mai'r nod yw cadw ffermwyr ar y tir oherwydd yr amryfal fanteision y gallant eu darparu. Mae hyn yn ymwneud ag integreiddio plannu coed a chynyddu'r gorchudd coed ar ffermydd Cymru er mwyn helpu i gyflawni targedau uchelgeisiol y llywodraeth, gan ganiatáu i gymunedau gwledig Cymru ffynnu hefyd.

Dywedodd Hedd Pugh, NFU Cymru nad yw ffermwyr Cymru yn gwrthwynebu'r syniad o blannu coed, ond nad ydynt eisiau coedwigo ar raddfa fawr. Nid yw ffermwyr Cymru eisiau allforio cynhyrchu bwyd i rannau eraill o'r byd. Yn ôl Hedd, mae'n ymwneud â phlannu'r coed iawn yn y lle iawn.

37. Dywedodd Marc Williams, CNC fod CFfI Cymru wedi bod wrthi'n recriwtio Prif Swyddog Gweithredol newydd a bod newidiadau mawr i'w gweld ymhlith y swyddogion. Dywedodd Marc y bydd gwahoddiad yn cael ei estyn yn syth ar ôl penodi Prif Swyddog Gweithredol/Cadeirydd newydd.

38. **Confor:** Dywedodd Anthony Geddes mai rhan o'r archwiliad dwfn oedd deall y ffordd ymlaen o ran coedwigo. Mae Confor yn parhau i weithio ar ffrydiau gwaith gydag aelodau'r tîm archwiliad dwfn, yn cynnwys strategaeth ddiwydiannol ar gyfer pren a ffibr. Mae meysydd gwaith eraill yn cynnwys ystyried disodli Glastir a datgysylltu cynllunio a grantiau plannu.

    Er mwyn annog ffermwyr, dywedodd Tim Kirk, Confor y dylem sôn am statws cyfredol y farchnad ar gyfer pren; am nifer o resymau, mae'r farchnad ar gyfer pren yn ffynnu.

39. **CLA:** Dywedodd Fraser McAuley fod y CLA yn gweithio tuag at yr un ymgynghoriadau a grybwyllwyd gan eraill hefyd, ochr yn ochr ag ymateb i flaenoriaethau Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a blaenoriaethau'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

40. **TFA:** Dywedodd Dennis Matheson fod TFA Cymru yn gweithio ar hyn o bryd ar ddod o hyd i atebion i ffermwyr tenant a Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021. Bedwar mis ar ôl cyflwyno'r Rheoliadau hyn, dywedodd Dennis fod Llywodraeth Cymru wedi llunio dogfen ddrafft a oedd yn cynnwys Cwestiynau Cyffredin ar gyfer ffermwyr tenant. Mae'r ddogfen hon yn rhestru'r problemau, ond nid yw'n cynnig unrhyw atebion – felly mae tenantiaid mewn sefyllfa anodd iawn. Mae tenantiaid mewn sefyllfa lle mae'n rhaid iddynt naill ai anwybyddu'r rheoliadau ac wynebu erlyniad, cydymffurfio â'r rheoliadau a thorri telerau eu tenantiaeth, neu roi'r gorau i ffermio. Mae'r TFA yn ceisio gweithio gyda Llywodraeth Cymru er mwyn ceisio dod o hyd i atebion; ond fel mae pethau ar hyn o bryd, nid yw Dennis yn ffyddiog bod atebion ar gael. Hefyd, trafododd Dennis yr heriau sy'n wynebu tenantiaid o ran plannu coed.

Dywedodd Ruth y bydd diweddariad ar gael i'r rhai sy'n eu cael gan Chris Botting fel arfer ynglŷn â'r Adroddiad ar Statws Dilysu Glastir.

***PG Medi 03: CNC i ddosbarthu'r Adroddiad ar Statws Dilysu Glastir i'r aelodau.***

Mae Geraint Llŷr Davies, CNC o'r farn fod Cymru gam ar ôl Lloegr o ran rhoi cyllid neu gymorth ariannol i ffermwyr. Dywedodd Spencer Conlon, Llywodraeth Cymru eu bod yn edrych ar yr hyn sy'n digwydd yn Lloegr.

41. **Llywodraeth Cymru:** Dywedodd Spencer fod Llywodraeth Cymru wrthi'n ymateb i adolygiad y pwyllgor a'r adolygiad barnwrol.

## Eitem 6 Ymatebion i Arolwg Fforwm Rheoli Tir Cymru ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

42. Lluniwyd holiadur er mwyn helpu i symud y grŵp yn ei flaen, yn ogystal â thrafod pynciau uniongyrchol a gweithio ar y cyd i gyflawni camau gweithredu. Cynigiodd hyn gyfle i'r aelodau adolygu'r ymatebion i'r arolwg a chytuno sut bydd y grŵp yn cydweithio er mwyn gwneud cynnydd.

43. Cafodd yr ymatebion i'r arolwg eu crynhoi a'u hanfon at yr aelodau ym mis Mehefin. Ailadroddwyd y rhain yn gryno gan Bronwen Martin, CNC er mwyn i'r grŵp allu ystyried y camau nesaf.

44. Gofynnodd Bronwen i'r aelodau rannu eu barn ynglŷn â chyfeiriad y grŵp. Er mwyn i'r grŵp allu parhau fel platfform ar gyfer rhannu gwybodaeth, dywedodd Bronwen y gellid cynyddu'r ddeialog rhwng y cyfarfodydd o bosibl; er enghraifft, annog dosbarthu gwybodaeth/newyddion perthnasol gan randdeiliaid drwy gydol y flwyddyn.

45. Dywedodd Ruth fod yr ymatebion yn tynnu sylw at nifer o themâu allweddol a allai gynnig cyfleoedd Gorchwyl a Gorffen a fyddai'n ystyried yr heriau a'r cyfleoedd. Er enghraifft, cydnabod yr heriau a'r cyfleodd mewn perthynas â phynciau fel rheoli tir yn gynaliadwy, rheoli ffermydd a chynhyrchu bwyd a phren.

46. Gofynnodd Zoe i'r aelodau a oedd ganddynt unrhyw adborth a chytunodd y byddai'n werthfawr iawn parhau i gyfathrebu gyda'r aelodau. Trafododd Zoe y posibilrwydd o wahodd aelodau newydd i'r grŵp; ond yn hytrach nag ymestyn yr aelodaeth, awgrymodd y gellid gwahodd pobl i fynychu fel gwesteion pan fo pwnc perthnasol yn cael ei drafod. Atgoffodd Zoe y grŵp fod y cofnodion yn cael eu rhoi ar wefan allanol CNC ar ôl cytuno arnynt (ac ar ôl iddynt gael eu cyfieithu), er mwyn i bawb allu eu hasesu – Fforwm Rheoli Tir Cymru. Dywedodd Zoe fod CNC yn ystyried ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn sicrhau bod cynllun ar waith a bod cyfathrebu'n rhagweithiol a chadarnhaol.

47. Dywedodd Marc fod CNC wedi recriwtio Swyddog Ymgysylltu â Rhanddeiliaid – bydd hyn yn allweddol wrth symud ymlaen er mwyn ein helpu i ymgysylltu a rhannu gwybodaeth, yn ogystal â bod yn dryloyw gyda'r grŵp ehangach. Dywedodd Marc fod cyfarfod y Fforwm Rheoli Tir a gynhaliwyd fis Mehefin diwethaf yn ddiddorol ac wedi gweithio'n dda gyda phrif thema a thrafodaeth banel gyda gwesteion. Gofynnodd Marc am farn yr aelodau a gofynnodd a fyddai'r grŵp am gael fformat tebyg ar gyfer cyfarfod mis Tachwedd, gyda thema wahanol.

48. Gofynnodd Anthony a fyddai modd dosbarthu crynodeb o'r ymatebion i'r arolwg.

***PG Medi 04: Bronwen Martin, CNC i ddosbarthu crynodeb o'r ymatebion i'r arolwg.***

49. Yn ôl Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru byddai'n fuddiol gweld y papurau sefyllfa a baratowyd gan CNC, cyn y Bil Amaethyddiaeth y gwanwyn nesaf, yna'u trafod yn un o gyfarfodydd y dyfodol.

50. Dywedodd Bronwen fod yr arolwg wedi bod yn ymarfer gwerthfawr iawn a diolchodd i'r aelodau am eu hadborth a'u sylwadau gonest.

## Eitem 7 Diweddariad am Weithdy Systemau Draenio Cynaliadwy Fforwm Rheoli Tir Cymru a Fforwm Rheoli Dŵr Cymru

51. Cynigir y dylid cynnal gweithdy 'untro' ar y cyd i drafod Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau), gydag aelodau Fforwm Rheoli Tir Cymru a Fforwm Rheoli Dŵr Cymru yn ei fynychu.

52. Trafododd Marc gynllun disgwyliedig y gweithdy, yn cynnwys y dyddiad/amser arfaethedig a'r agenda ddrafft.

53. Y dyddiad arfaethedig ar gyfer y gweithdy yw 12 Hydref, 10am-12pm. Fe'i cynhelir dros Microsoft Teams.

54. Mae'r agenda ddrafft yn cynnwys sesiynau'n ymwneud â'r canlynol:

    - Buddiannau rhanddeiliaid a thrafodaeth yn ymwneud â defnyddio SDCau o safbwynt y rhai yn y sector amaethyddol a'r sector coedwigaeth

    - Cefndir y ddeddfwriaeth gyfredol a'r newidiadau sydd yn yr arfaeth

    - Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd a'r defnydd o SDCau.

55. Diolchodd Marc i Rachel ac Anthony am eu hadborth, eu sylwadau a'u syniadau. Awgrymodd Rachel y gellid gwahodd ymgynghorwyr i'r gweithdy er mwyn sicrhau y bydd y negeseuon yn cyrraedd cynulleidfa ehangach. Gofynnodd Marc i aelodau'r grŵp a oeddynt yn cytuno y dylid gwahodd eraill i'r gweithdy; roedd y grŵp yn cefnogi hyn.

56. Gofynnodd Marc i'r grŵp a oedd gan unrhyw un arall awgrymiadau ar gyfer helpu i lywio agenda'r gweithdy.

57. Gofynnodd Rachel beth fydd allbwn y gweithdy. Cydnabu Rachel y bydd swyddogion perthnasol Llywodraeth Cymru yn bresennol, ond bod y swyddogion hyn hefyd wedi ymrwymo i adolygu'r defnydd a wneir o SDCau o fewn cyfnod penodol, sydd wedi dod i ben yn awr. Awgrymodd Rachel y dylid coladu unrhyw wybodaeth a gesglir a'i throi'n rhywbeth ffurfiol y gellir ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru, er mwyn iddynt ddechrau cydnabod rhai o'r problemau gyda'r ddeddfwriaeth hon. Dywedodd Marc y byddai'n rhannu'r sylwadau hyn â Ceri Jones, CNC, gan ei fod mewn cysylltiad â Llywodraeth Cymru.

58. Dywedodd Anthony na fydd modd iddo fynychu'r gweithdy ond y byddai'n fwy na pharod i anfon y gwahoddiad a'r wybodaeth at ei gydweithwyr er mwyn sicrhau y ceir presenoldeb ehangach ac adborth da. Dywedodd Marc y gall yr aelodau roi manylion cyswllt eu cydweithwyr i'r tîm neu anfon y gwahoddiad yn ei flaen atynt. Cadarnhaodd Rachel y bydd yn anfon y gwahoddiad yn ei flaen ac y bydd yn gwneud cofnod o'r ymatebion ar gyfer Marc.

## Eitem 8 Gweithdy Fforwm Rheoli Tir Cymru a Datganiadau Ardal

59. Dywedodd Marc fod trafodaethau mewnol wedi'u cynnal ers cyfarfod diwethaf Fforwm Rheoli Tir Cymru, yn ymwneud â gweithdy arfaethedig Fforwm Rheoli Tir Cymru a Datganiadau Ardal. O ran logisteg, ceir rhai pryderon ar hyn o bryd ynglŷn â chynnal digwyddiad mawr ac efallai y bydd rhai pobl yn dal i deimlo'n anghyfforddus yn mynychu'r mathau hyn o ddigwyddiadau.

60. Rhoddodd Marc fraslun o'r cynllun arfaethedig diweddaraf, sef cynnal pum sesiwn gweithdy unigol ar gyfer pob un o'r themâu. Bydd y sesiynau hyn yn para hyd at ddwyawr a byddant yn cael eu cyflwyno ar Microsoft Teams. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r aelodau gyfrannu at amryfal themâu yn hytrach na'u bod yn cael eu rhannu'n 'ystafelloedd' gwahanol a bydd modd iddynt fynychu mwy nag un sesiwn os ydynt am wneud hynny.

61. Y bwriad yw cynnal y sesiynau hyn dros y tri mis nesaf rhwng Hydref a Rhagfyr, ond gellir ymestyn yr amser pe bai angen. Mae'r pum thema'n cynnwys rheoli llifogydd yn naturiol; coetiroedd, coed a gwrychoedd; tir comin; llethrau iach; a rhwydweithiau bwyd. Yn ôl Marc, bydd pob sesiwn yn cynnwys cyflwyniad ac yna bydd gweithdy'n cael ei gynnal a fydd yn cynnwys fideos, siaradwyr gwadd a sesiynau trafod ac adborth. Gofynnodd Marc i'r aelodau am eu barn ynglŷn â chynnal sesiynau unigol byrrach. Gofynnodd Dennis Matheson, TFA a fydd modd i bobl ddeialu i mewn er mwyn ymuno â'r sesiynau hyn. Cadarnhaodd Marc y bydd hynny'n bosibl.

62. Dywedodd Zoe fod y cynllun o dan sylw yn swnio'n ddiddorol ac y bydd yn braf treiddio'n ddyfnach i'r themâu yn ystod y sesiynau hyn.

63. Awgrymodd Geraint Llŷr Davies, CNC fod gwrychoedd yn gyfle a gollir a bod angen cydnabod y manteision. Maent yn asedau hanfodol a all helpu i gyflawni cymaint o fanteision. Cytunodd Dennis gyda sylwadau Geraint a dywedodd fod plannu gwrychoedd yn fwy tebygol o fod yn dderbyniol mewn sefyllfaoedd rhwng tenantiaid a landlordiaid.

    Dywedodd Martyn ei bod hi'n bwysig deall pam daethpwyd i ystyried gwrychoedd fel nodweddion 'diddrwg didda' a pham cafwyd gwared â nhw yn y gorffennol. Awgrymodd Geraint fod y dirywiad mewn gwrychoedd yn gysylltiedig yn bennaf â pholisi cynhyrchu bwyd y llywodraeth trwy'r 70au a'r 80au a thu hwnt, pan oedd angen cynhyrchu mwy o fwyd i fwydo poblogaeth a oedd yn prysur dyfu. Dywedodd Geraint fod y rhod yn troi a bod yna fwy o ddealltwriaeth erbyn hyn. Yn y mannau lle mae Geraint wedi ailblannu gwrychoedd, mae'r caeau problemus bellach ar eu hennill.

    Cytunodd John Browne, CNC â sylwadau Geraint ynglŷn â manteision gwrychoedd; mae gennym argyfwng hinsawdd ac argyfwng bioamrywiaeth ac mae gwrychoedd yn

hanfodol. O ran proffidioldeb coetiroedd, dywedodd John fod angen cael y coed iawn yn y lle iawn, ond hefyd am y rhesymau iawn. Mae angen i'r tirfeddiannwr ystyried y rhesymau dros blannu, nid proffidioldeb yn unig.

64. Gofynnodd Bernard Griffiths, FUW pa elfennau gwahanol fydd y thema 'llethrau iach' yn eu cynnwys nad ymdrinnir â nhw yn y pedair thema arall. Dywedodd Marc mai prosiect yng Nghanol De Cymru yw Llethrau Iach ac y bydd yn cynnwys trafodaethau'n ymwneud â rheoli llethrau, fel rheoli rhedyn. Dywedodd Marc fod ei gydweithwyr wrthi'n trafod cynnwys pob sesiwn a'u bod yn gweithio'n galed i gyfyngu ar unrhyw orgyffwrdd rhwng y themâu, er enghraifft rhwng tir comin a llethrau iach.

65. Dywedodd Hedd fod nifer fach o ffermwyr a thirfeddianwyr wedi mynychu'r cyfarfod Datganiadau Ardal diwethaf yr ymunodd ag ef, felly rhaid ystyried dyddiad ac amser y sesiynau hyn er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn ymarferol.

66. Dywedodd Anthony fod cymysgedd o bobl wedi mynychu'r digwyddiadau Datganiadau Ardal blaenorol; ond ni waeth sut caiff y sesiynau arfaethedig eu cynnal, rhaid sicrhau y bydd yna ddigon o ymgysylltu proffesiynol gan fod lleisiau ffermwyr lleol a choedwigwyr lleol ar goll o'r digwyddiadau hyn yn aml.

    Trafododd Anthony yr ymgynghoriad ynglŷn ag adolygiad CNC o Ddatganiadau Ardal (Datganiad Sefyllfa – Adolygu Datganiadau Ardal). Yn ôl Anthony, roedd y ddogfen PDF a oedd ynghlwm wrth yr ymgynghoriad yn gymhleth tu hwnt ac yn anodd ei deall. Awgrymodd Anthony y dylai'r ddogfen fod yn fwy eglur er mwyn i bobl allu ymateb i'r ymgynghoriad.

***PG Medi 05: Ruth Jenkins, CNC a Martyn Evans, CNC i gyfleu sylwadau Anthony ynglŷn â'r ymgynghoriad ar adolygiad CNC o Ddatganiadau Ardal.***

Cytunodd Rachel gyda sylwadau Anthony ynglŷn â'r ddogfen PDF a dywedodd ei bod hithau hefyd wedi cael anhawster i'w deall.

67. Trafododd Zoe a Marc y syniad o gynnwys fideos byr yn y sesiynau gweithdy er mwyn ceisio dod â'r awyr agored o dan do. Dywedodd Marc ei fod yn gwybod am fideos y gellid eu defnyddio, ond y byddai'n dda o beth pe bai fideos newydd yn cael eu creu allan ar safleoedd, a allai gynnwys trafodaeth banel gyda'r aelodau. Gofynnodd Martyn i'r aelodau awgrymu safleoedd posibl sy'n gysylltiedig ag unrhyw un o'r themâu ac y gellid eu cynnwys mewn fideo.

***PG Medi 06: Yr aelodau i awgrymu safleoedd perthnasol sy'n gysylltiedig â'r themâu, y gellir eu hystyried ar gyfer creu fideo.***

68. Awgrymodd Geraint y gellid defnyddio ei fferm ef i greu fideo.

69. Gofynnodd Fraser McAuley, CLA a yw'r dyddiadau wedi'u cadarnhau. Dywedodd Marc fod y dyddiadau wrthi'n cael eu hystyried, ond cynigiodd y gellid cynnal y sesiynau ar reoli llifogydd yn naturiol a choetiroedd, coed a gwrychoedd rywbryd ym mis Hydref, y gellid cynnal y sesiynau ar dir comin a llethrau iach ym mis Tachwedd, ac y gellid cynnal y sesiwn ar rwydweithiau bwyd ym mis Rhagfyr. Os oedd y grŵp yn awyddus i ymestyn yr amserlen, gofynnodd Marc i'r aelodau roi gwybod iddo. Ond yn y cyfamser, byddai'n mynd ati i geisio trefnu dyddiadau.

70. Gofynnodd Marc i aelodau'r grŵp gysylltu ag ef gydag awgrymiadau ynglŷn â siaradwyr gwadd ac astudiaethau achos ar gyfer y themâu.

***PG Medi 07: Y grŵp i awgrymu siaradwyr gwadd ac astudiaethau achos ar gyfer pob un o'r themâu.***

## Eitem 9 Unrhyw Fater Arall

71. Bydd cyfarfod nesaf Fforwm Rheoli Tir Cymru yn cael ei gynnal ddydd Llun 22 Tachwedd 2021.

72. Gofynnodd Zoe a oedd gan yr aelodau unrhyw sylwadau ynglŷn â chynnal cyfarfod yn y cnawd. Gofynnwyd a fyddai modd cyfuno cyfarfod yn y cnawd a chyfarfod rhithwir. Awgrymodd Zoe y byddai cyfarfod cyfunol yn fuddiol. Dywedodd Marc y byddai'r sefyllfa'n dibynnu ar leoliad/cyfleusterau'r cyfarfod. Dywedodd Martyn fod CNC yn ceisio arwain trwy esiampl trwy annog pobl i barhau i gynnal cyfarfodydd rhithwir oherwydd y manteision sy'n gysylltiedig â lleihau teithio mewn ceir, lleihau'r effaith ar yr hinsawdd a lleihau'r perygl o ran Covid. Pe bai cyfarfodydd yn y cnawd yn cael eu cynnal, dywedodd Anthony y byddai'n dda o beth eu cydgysylltu a chael diwrnod o gyfarfodydd, oherwydd mae'r dyddiau lle arferai pobl deithio pellter mawr i un cyfarfod dwyawr o hyd wedi hen fynd.

## Diwedd y cyfarfod